Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Iau, 10 Chwefror 2022

Amser: 09.31 – 15.34

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/12608

Hybrid

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	Russell George AS (Cadeirydd) Rhun ap Iorwerth AS Gareth Davies AS Mike Hedges AS Jack Sargeant AS Joyce Watson AS
Tystion:	Nicola Stubbins, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Y Cynghorydd Susan Elsmore, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Allison Hulmes, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain Mary Wimbury, Fforwm Gofal Cymru Mario Kreft, Fforwm Gofal Cymru Sanjiv Joshi, Fforwm Gofal Cymru

	Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Judith Paget, Llywodraeth Cymru Chris Jones, Llywodraeth Cymru Nick Wood, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	Helen Finlayson (Clerc) Claire Morris (Ail Glerc) Lowri Jones (Dirprwy Glerc) Amy Clifton (Ymchwilydd) Sarah Hatherley (Ymchwilydd) Philippa Watkins (Ymchwilydd) Claire Thomas (Ymchwilydd) Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) Aled Evans (Cynghorydd Cyfreithiol) Dr Paul Worthington (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Datganodd Gareth Davies AS ei fod yn aelod o Gyngor Sir Ddinbych tan fis Mai 2022.

2 Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai: sesiwn dystiolaeth gydag awdurdodau lleol

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol.

3 Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai: sesiwn dystiolaeth gyda Fforwm Gofal Cymru

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Fforwm Gofal Cymru.

4 Papurau i'w nodi

4.1 Ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal

4.1 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 6, 8, 9 a 10 y cyfarfod heddiw.

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

6 Rhyddhau cleifion o ysbytai ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai: trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

7 Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth a Chraffu ar Gynllun Gaeaf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru 2021 i 2022: sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

7.2 Cytunodd Judith Paget i rannu gwybodaeth am gapasiti llawfeddygol y byrddau iechyd â'r Pwyllgor.

7.3 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i rannu canfyddiadau'r adolygiad o gapasiti gwasanaethau niwroddatblygiadol a'r galw amdanynt â'r Pwyllgor maes o law.

7.4 Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y defnydd o basiau COVID.

8 Effaith yr ôl-groniad o ran amseroedd aros ar bobl yng Nghymru sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth a Chraffu ar Gynllun Gaeaf Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru 2021 i 2022: trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law. Nododd y Pwyllgor feysydd i'w cynnwys yn ei adroddiad ar amseroedd aros, a chytunwyd i ysgrifennu ar wahân at y Gweinidog ynghylch cynllunio ar gyfer y gaeaf.

9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau: trafod yr adroddiad drafft

9.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft, yn amodol ar fân ddiwygiadau.

10 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Iechyd a Gofal: trafod yr adroddiad drafft

10.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft, yn amodol ar fân ddiwygiadau.